

No.

PWYLLGOR CRAFFU PERFFORMIAD AC ADNODDAU CORFFORAETHOL

Cofnodion cyfarfod hybrid a gynhaliwyd ar 21 Chwefror, 2024.

Mae'r Agenda ar gael [yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar gael [yma](#).

Yn Bresennol: Y Cynghorydd J. Protheroe (Cadeirydd); Cynghorydd E. Goodjohn (Is-Gadeirydd); Cyngorwyr G.D.D. Carroll, P. Drake, C.P. Franks, S.J. Haines, H.C. Hamilton, S.M. Hanks, Dr. I.J. Johnson, B. Loveluck-Edwards and N.J. Wood.

Hefyd yn bresennol: Cyngorwyr A. Asbrey, L. Burnett (Arweinydd Gweithredol ac Aelod Cabinet Berfformiad ac Adnoddau), W.A. Hennessy, G. John (Aelod Cabinet dros Hamdden, Chwaraeon a Lles) and E. Williams (Aelod Cabinet dros Gofal Cymdeithasol ac Iechyd).

825 CYHOEDDIAD -

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol."

826 COFNODION –

ARGYMHELLWYD – Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17eg Ionawr, 2024 fel cofnod cywir yn amodol ar y newidiadau a ganlyn ynghylch sylwadau'r Cynghorydd Haines ar Dudalen 4, eitem agenda'r Pecyn Cymorth a'r Ddogfen Gyfarwyddyd Cynhwysiant Trawsryweddol Drafft (Cofnod Rhif 706). yn cyfeirio):

- Gan gyfeirio at y rhan o'r cofnod lle dywedwyd bod y Cynghorydd Haines wedi awgrymu y dylid ymgynghori â'r holl grwpiau crefyddol fel rhanddeiliaid mewn ymgynghoriadau yn y dyfodol, dylai hyn mewn gwirionedd ddarllen bod y Cynghorydd Haines wedi awgrymu y dylid bod wedi ymgynghori â grwpiau crefyddol fel rhanddeiliaid yn yr ymgynghoriad ar gyfer yr iteriad diweddaraf hwn o'r Pecyn Cymorth.
- Hefyd, roedd y Cynghorydd Haines wedi datgan yn y cyfarfod dan sylw bod athrawon wedi'u gadael yn agored i niwed oherwydd diffyg parodrwydd Cyngor Bro Morgannwg i ddatgan pa gamau y dylid eu cymryd ynghylch lleoedd un rhyw. Dylai'r Cyngor roi cyngor ar hyn o ganlyniad.

827 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

828 POLISI TÂL 2024/25 (CYF) –

Cyflwynwyd y cyfeiriad o gyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 8 Chwefror 2024 gan y Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol er mwyn i'r Pwyllgor ystyried iteriad diweddaraf y Cyngor o'i bolisi cyflog, cyn iddo gael ei ystyried a'i gymeradwyo'n derfynol gan y Cyngor ar 6 Mawrth 2024. Cytunwyd hefyd gan y Pwyllgor y byddai'r Cyfarwyddwr, oherwydd ei rôl fel Prif Swyddog, yn gadael y cyfarfod yn dilyn y cyflwyniad hwn a chyn i'r Pwyllgor drafod ac ystyried yr eitem.

Roedd gan y Cyngor ofyniad statudol dan Ddeddf Lleoliaeth 2011 i baratoi datganiad polisi cyflog ar gyfer y flwyddyn ariannol newydd sef 2024/25. Roedd angen cymeradwyo a chyhoeddi'r datganiad erbyn 31 Mawrth 2024. Roedd y ddogfen yn darparu fframwaith ar gyfer sicrhau bod cyflogeion yn cael eu gwobrwyo'n deg ac yn wrthrychol, yn unol ag anghenion gwasanaeth y Cyngor a bod y broses yn agored ac yn dryloyw.

Roedd y newidiadau a'r diweddariadau allweddol i'r fersiwn ddiweddaraf hon o'r Polisi Cyflog (Atodiad A) yn cynnwys y canlynol:

- Roedd y Dyfarniadau Cyflog Cenedlaethol ar gyfer Prif Swyddogion a staff eraill wedi'u cwblhau ar gyfer 2023/24. Roedd trafodaethau ar gyfer 2024/25 newydd ddechrau ac nid oedd unrhyw wybodaeth am y rhain na'r cynigion hyd yn hyn. Ond byddai'n rhaid iddynt ystyried cyfraddau'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol a gyhoeddwyd yn ddiweddar.
- Roedd cyflwyno'r cynllun Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol (CGY) Cost a Rennir wedi arwain at ostyngiad mewn taliadau Yswiriant Gwladol i'r cyflogwr, gyda £25k o arbedion yn cael eu cyflawni a fyddai'n cynyddu gyda mwy o staff y Cyngor yn ymuno â'r cynllun.
- Manylion wedi'u diweddarau ar gyfanswm nifer y cyflogeion yn y Cyngor a chyfanswm poblogaeth Bro Morgannwg.
- Nifer a phroffil rhywedd Prif Swyddogion y Cyngor, gyda newid bach yn y proffil rhywedd oherwydd bod dau aelod o staff benywaidd wedi gadael y Cyngor gan gael eu disodli gan ddau aelod o staff gwrywaidd.
- Bu cynnydd bach yn y bwlch cyflog rhwng y rhywiau, bwlch cyflog canolrifol y Cyngor oedd 7.1%, yn genedlaethol roedd hyn yn 14.3%.
- Cymarebau cyflog: gyda'r dyfarniadau cyflog diweddar i gyflogeion ar Raddau 1 i 11 yn cael cynnydd dyfarniad cyflog canran uwch yn gyffredinol oherwydd y cynnydd sefydlog, roedd y lluosrifau rhwng cyflogau staff a'r Prif Swyddogion/Prif Weithredwr yn lleihau.

Yn dilyn cyflwyno'r cyfeiriad a'r adroddiad, cafwyd y cwestiynau a'r sylwadau canlynol yng nghyfarfod y Pwyllgor:

- Gofynnodd y Cynghorydd Carroll am y ffaith bod Lywodraeth y DU bellach wedi dirymu ei phenderfyniad i osod cap o £95k ar daliadau ymadael ac a fyddai'r Cyngor nawr yn edrych i wneud unrhyw daliadau sy'n uwch na hynny. Esboniodd yr Arweinydd Gweithredol a'r Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau nad oedd bwriad i wneud hyn, ac roedd achosion

No.

o ddileu swyddi ac ymddeol yn gynnwys, gan gynnwys y taliadau perthnasol cysylltiedig, eisoes yn cael eu trin dan broses gadarn gan y Cyngor drwy'r Pwyllgor perthnasol.

- Cyfeiriodd yr Is-gadeirydd at y cynnydd bach yn y bwllch cyflog rhwng y rhywiau a'r hyn a oedd yn cael ei wneud i fynd i'r afael â hyn. Esboniodd yr Arweinydd Gweithredol a'r Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau fod y bwllch cyflog rhwng y rhywiau ar ddiwedd 2023 yn 4% a'i fod yn parhau i fynd i lawr, er gwaethaf y 'nam' diweddar yn y ffigyrau. Roedd y Cyngor hefyd yn gweithio gyda'i rwydweithiau amrywiaeth amrywiol i helpu i fynd i'r afael â bylchau cyflog yn seiliedig ar amryw ffactorau, yn ogystal â rhywedd.

Gwnaeth y Pwyllgor Craffu, ar ôl ystyried y cyfeiriad, yr adroddiad atodol a phob mater a phob goblygiad ynddynt,

ARGYMHELLWYD – Y dylid nodi Polisi Tâl y Cyngor 2024/25 fel y'i nodir yn yr adroddiad cyfeiriol, atodol ac fel y'i cynhwyswyd yn y datganiad diwygiedig yn Atodiad A.

Rheswm dros yr argymhelliad

Gan ystyried cynnwys y geirada a'r adroddiad, ynghyd â'r trafodaethau yn y cyfarfod.

829 AIL-LUNIO - RHAGLEN DRAWSNEWID Y CYNGOR AR GYFER Y DYFODOL (CYF) –

Cyflwynwyd y cyfeiriad o gyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 18 Ionawr 2024 gan y Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol.

Nododd yr adroddiad y cynigion ar gyfer cam nesaf rhaglen drawsnewid y Cyngor, Ail-lunio. Ail-lunio Gwasanaethau oedd y rhaglen newid trawsnewidiol a lanswyd yn 2015 ac a oedd yn galluogi'r Cyngor i liniaru effaith cyni tra'n cyflawni arbedion ariannol sylweddol. O ystyried yr her ariannol sylweddol a oedd yn wynebu'r Cyngor yn y tymor canolig, roedd bellach yn bryd canolbwyntio ar Ail-lunio unwaith eto a nododd yr adroddiad fframwaith a syniadau cynnar ar gyfer datblygu newid trawsnewidiol dan bum thema sef Model Gweithredu Targed, Trawsnewid Gwasanaethau, Cryfhau Cymunedau, Arloesi Digidol a Gwydnwch Economaidd.

Roedd yr adroddiad yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer y cynigion i ddatblygu'r Rhaglen Ail-lunio, gan gynnwys ymgymryd â phroses ymgysylltu â Phwyllgorau, Fforymau a Rhwydweithiau amrywiol y Cyngor a bod adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno maes o law gyda phrosiectws o brosiectau.

Yn dilyn cyflwyno'r cyfeiriad a'r adroddiad, cafwyd y cwestiynau a'r sylwadau canlynol yng nghyfarfod y Pwyllgor:

- Teimlai'r Cynghorydd Carroll fod 'diffyg ffocws' yn gyffredinol yn yr adroddiad, ac felly, roedd angen amlinellu prif ffocws yr adroddiad a'r

Rhaglen yn gliriach a ddylai gynnwys pwyslais cryf ar ddiogelu a blaenoriaethu gwasanaethau, sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu'n effeithiol a mynd i'r afael â phryderon trigolion. Esboniwyd mai'r ffocws allweddol i'r Cyngor oedd ymateb i anghenion trigolion a bod yn fwy cynaliadwy wrth ddarparu gwasanaethau iddynt fel rhan o'r ymarfer Ail-lunio hwn.

- Gwerthfawrogodd y Cynghorydd Franks yr angen am y Strategaeth yng ngoleuni'r heriau ariannol presennol a oedd yn wynebu'r Cyngor ond roedd hefyd yn teimlo ei bod yn rhy 'aneglur', gyda diffyg manylion ar gynnig, gwybodaeth ariannol, amserlen a thargedau. Gofynnodd sut y byddai'r Cyngor yn gwybod a oedd y Strategaeth wedi bod yn llwyddiant ai peidio, a oedd digon o gapasiti gan swyddogion i gyflawni hyn ac a oedd y cyllid ar gael o ran Ail-lunio a throsglwyddo asedau posibl. Pwysleisiodd y Cadeirydd a'r Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol mai dim ond y fframwaith cychwynnol oedd yr adroddiad hwn a bod yr adroddiad yn ffordd o ennyn adborth ar y cyfeiriad teithio ar gyfer Ail-lunio wrth symud ymlaen ac felly nid oedd ganddynt fanylion penodol ar gyllid, cynlluniau, ac ati. Byddai amserlen yn cael ei rhoi erbyn toriad yr haf. Byddai'r Tîm Arweinyddiaeth Strategol (TAS) yn edrych ar y blaenoriaethau a sut i symud Ail-lunio yn ei flaen a'r hyn yr oedd yn rhaid i'r Cyngor ei gyflawni. O ran Trosglwyddo Asedau Cymunedol, roedd y Cyngor wedi dysgu gwersi o'r iteriadau blaenorol o Ail-lunio a byddai'n fwy rhagweithiol wrth gysylltu â grwpiau cymunedol.
- O ran Trosglwyddo Asedau Cymunedol, teimlai'r Cadeirydd y dylid cynhyrchu canllaw trosglwyddo ar gyfer grwpiau cymunedol a chynnwys Aelodau Etholedig profiadol yn y grwpiau llywio cysylltiedig er mwyn cryfhau'r broses.
- Nododd y Cynghorydd Loveluck-Edwards mai dogfen 'fyw' oedd y Strategaeth, ond bod yr ymdrech i Ail-lunio yn elfen gyson. Dywedodd y Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol fod Ail-lunio yn broses 'ddysgu' barhaus er mwyn gwella'r ffordd y caiff gwasanaethau â blaenoriaeth y Cyngor eu diogelu oherwydd y cyfyngiadau ar gyllid y sector cyhoeddus.
- Awgrymodd y Cynghorydd Haines ei bod yn debyg y byddai wedi bod yn well i'r Pwyllgor gael yr adroddiad yn ddiweddarach, pan oedd mwy o wybodaeth a manylion ar gael. Cyfeiriodd at drosglwyddo asedau ac at y ffaith bod hyn wedi gweld canlyniadau a llwyddiant cymysg, gyda chymunedau o bosibl yn talu ddwywaith am yr un gwasanaeth. Awgrymodd hefyd y gallai staff y Cyngor a oedd yn defnyddio eu cerbydau modur yn rheolaidd helpu i sylwi ar broblemau gyda ffyrdd a phriffyrdd y Fro, er mwyn cynllunio gwaith cynnal a chadw yn fwy effeithiol a pheidio â gorfod dibynnu ar adroddiadau trigolion yn unig. Byddai'r awgrym hwn yn cael ei ystyried a byddai mwy o fanylion yn cael eu rhoi ar Ail-lunio maes o law.
- Cyfeiriodd y Cynghorydd Dr Johnson at natur barhaus y broses Ail-lunio ac at y ffaith mai 'cod ar gyfer toriadau' mewn gwasanaethau anstatudol oedd hyn mewn gwirionedd yn hytrach na thrawsnewid y rhain er gwell. Felly, roedd yn bwysig gweld gyda'r iteriad hwn o Ail-lunio syniadau arloesol ar gyfer gwasanaethau'r Cyngor wrth symud ymlaen ac allbynnau a chanlyniadau clir, er mwyn gwella gwasanaethau yn hytrach na dim ond eu lleihau. Roedd hefyd 'gamgymharu' sef tra bod rhai o wasanaethau'r

No.

Cyngor yn cael eu cwtogi oherwydd diffyg cyllid ac ati (h.y. gofal) roedd yn ymddangos bod meysydd eraill wedi'u hariannu'n dda h.y. datblygiad Marina'r Barri. Cytunodd y Cadeirydd fod datgysylltiad yn y maes hwn ond efallai bod hyn oherwydd ystyriaethau a meini prawf eraill a gymhwyswyd i gyllid o'r fath, ond roedd angen i'r Cyngor edrych ar ffyrdd newydd o wella cyllid ar gyfer gwasanaethau. Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol y byddai meini prawf penodol ar gyfer sut olwg oedd ar lwyddiant ar gyfer Ail-lunio yn y dyfodol. Parhaodd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) y Fro i weithio i fynd i'r afael â materion yn ymwneud â thlodi, nid trwy ganolbwyntio ar wneud arbedion, a byddai ei ymdrechion yn y pen draw yn helpu i liniaru lefelau uwch o wariant yn y dyfodol trwy fynd i'r afael â'r meysydd hyn o angen yn rhagweithiol. Felly, parhaodd y gwaith ar wasanaethau, cymorth a chyllid ond ar wahanol wedd.

- Dywedodd y Cynghorydd Carroll nad oedd y Cyngor yn mynd i'r afael â chynhyrchu incwm yn gywir ac nad oedd yn edrych yn ddigonol ar lwybrau newydd h.y. roedd cael gwared â'r staff ym Mharc Cosmeston yn fyr ei olwg a gellid defnyddio eu harbenigedd i ddatblygu'r gwasanaethau a'r cyfleusterau yno'n llawnach yn lle. Yn y pen draw, gallai hyn arwain at fod yn hunangynhaliol a sicrhau budd net i'r Cyngor. Hefyd, ni roddwyd digon o amlygrwydd yn y Strategaeth Ddigidol i'r defnydd o dechnoleg ddigidol fel Deallusrwydd Artiffisial (DA). Esboniwyd y byddai'r adborth hwn ar gyfleoedd masnachol ychwanegol yn cael ei rannu gyda swyddogion perthnasol y Cyngor. Roedd DA a mwy o ddefnydd o awtomeiddio, ac ati eisoes wedi'u cynnwys yn y Strategaeth Ddigidol o ganlyniad uniongyrchol i adborth y Cynghorydd Carroll mewn cyfarfod pwyllgor blaenorol.
- Roedd yr Arweinydd Gweithredol a'r Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau o'r farn bod y trafodaethau ar yr eitem hon heno wedi bod yn ddechrau da wrth drafod y Strategaeth hon a byddent yn rhan o ymgynghori a chydweithio ehangach gyda phartneriaid. Roedd y Cyngor wedi gorfod gwneud degau o filiynau o bunnoedd mewn arbedion dros y degawd diwethaf, a byddai Ail-lunio yn darparu fframwaith ar gyfer gwneud arbedion ond mewn ffordd gadarnhaol ac adeiladol ac felly'n osgoi dull gweithredu 'tameidiog' tuag at hyn. Wrth symud ymlaen, byddai cynlluniau manylach ynghylch Ail-lunio yn cael eu llunio er sicrhau mwy o wybodaeth am sut olwg fyddai ar lwyddiant ar gyfer y Strategaeth hon. O ran cyfleoedd masnachol, gallai'r rhain fod o fudd ond roedd angen eu hystyried yn ofalus cyn gwneud trefniadau o'r fath. Roedd y Cyngor eisoes wedi cael llwyddiannau gydag Ail-lunio, fel prydau ysgol i bob plentyn, ei waith gyda grwpiau cymunedol a chlybiau chwaraeon ac yn ceisio ehangu hyn. Roedd yn bwysig gweithio gyda chymunedau lleol yn y Fro ac ar eu rhan, a deall eu hanghenion amrywiol a'u profiadau bywyd.

Gwnaeth y Pwyllgor Craffu, ar ôl ystyried y cyfeiriad, yr adroddiad atodol a phob mater a phob goblygiad ynddynt,

ARGYMHELLWYD – Y dylid nodi'r cyfeiriad a'r adroddiad atodol ar gyfer Ail-lunio - Rhaglen Trawsnewid i'r Dyfodol i'r Cyngor.

Rheswm dros yr argymhelliad

Gan ystyried cynnwys y geirda a'r adroddiad, ynghyd â'r trafodaethau yn y cyfarfod.

830 CYNLLUN CYFLAWNI BLYNYDDOL DRAFFT CYNGOR BRO MORGANNWG 2024-25 AR ÔL YR YMGYNGHORIAD (CAC) –

TDiben yr adroddiad oedd galluogi'r Pwyllgor i ystyried y Cynllun Cyflawni Blynyddol drafft ar gyfer 2024-25 ar ôl ymgynghori. Cyflwynwyd hyn gan y Rheolwr Gweithredol Strategaeth Gorfforaethol a Mewnwelediad.

Nododd yr adroddiad sut y datblygwyd y Cynllun Cyflawni Blynyddol (y Cynllun) drafft (Atodiad A yr adroddiad) ar gyfer 2024-25, canlyniad yr ymgynghoriad a'r newidiadau dilynol i'r Cynllun. Roedd y Cynllun ar gyfer 2024-25 yn cyd-fynd â phedwar Amcan Lles y Cyngor a nodwyd yng Nghynllun Corfforaethol 2020-2025. Nododd y Cynllun y gweithgareddau a fyddai'n cael eu cynnal yn 2024-25 i gyflawni'r amcanion hynny.

Nododd y Cynllun hefyd dair her hanfodol (a oedd yn gysylltiedig â'r pedwar Amcan Lles) a fyddai'n ganolbwynt allweddol i'r sefydliad yn 2024-25. Y rhain oedd: gwydnwch sefydliadol, costau byw a'r argyfyngau hinsawdd a natur.

Byddai'r ymrwymadau yn y Cynllun yn cael eu hadlewyrchu mewn Cynlluniau Gwasanaeth Blynyddol ynghyd â chyfres o fesurau perfformiad a fyddai'n manylu ar sut y byddai gwahanol wasanaethau'r Cyngor yn cyfrannu at gyflawni'r pedwar Amcan Lles. Roedd gwaith wedi dechrau i ddatblygu'r cynlluniau gwasanaeth a fyddai'n cael eu cyflwyno i'r Pwyllgorau Craffu perthnasol ym mis Mawrth ynghyd â thargedau arfaethedig ar gyfer gwella gwasanaethau ar gyfer 2024-25.

Yn dilyn cyflwyno'r adroddiad, cafwyd y cwestiynau a'r sylwadau canlynol yng nghyfarfod y Pwyllgor:

- Roedd y Cadeirydd yn falch o weld bod yr adroddiad yn dangos yn glir bod y broses Craffu ac ymgynghori yn gweithio ac wedi nodi'r ymatebion a'r newidiadau a wnaed fel rhan o'r broses hon.
- Croesawodd yr Is-gadeirydd gynnwys cyfathrebu'n benodol o fewn yr her gwydnwch sefydliadol fel rhan o'r Cynllun a tharged ychwanegol er mwyn ymgysylltu â'r cyhoedd a meithrin ymddiriedaeth. Fodd bynnag, o fewn yr ymgynghoriad ei hun, dim ond un ymateb a gafwyd ar gyfathrebu gan dynnu sylw at hyn fel her feirniadol; ond roedd yn ymddangos bod ymateb llawer mwy cyffredinol gan nodi bod angen i'r Cyngor gyfathrebu'n well. O ran y newidiadau i'r targedau, roedd y rhain yn llawer agosach at y syniad 'targedau craff' a godwyd yng nghyfarfod pwyllgor blaenorol, ac roeddent yn llawer cliriach ac yn haws eu deall. Wrth symud ymlaen, gallai fod gwelliant o ran gosod targedau lefel uwch. Ar y cyfan, bu gwelliant sylweddol i'r Cynllun.

No.

- Ategodd y Cynghorydd Dr Johnson y sylwadau a wnaed ar y gwelliannau i'r ddogfen ac amlygu ac olrhain y newidiadau a wnaed. Fodd bynnag, nid oedd targedau gwirioneddol ar gyfer y mwyafrif o amcanion a chatau gweithredu o hyd ac felly nid oedd unrhyw ffordd ddigonol o fesur ac asesu llwyddiant. Mewn gwirionedd, teimlai'r Cynghorydd Dr Johnson fod y Cyngor yn 'marcio ei waith cartref ei hun' drwy'r system hunan-adrodd hon. Hefyd, o ran cyfathrebu ac ymgysylltu, bu cyfradd ymateb isel i'r ymgynghoriad ac aelodau o'r boblogaeth hŷn oedd nifer sylweddol o'r ymatebwyr. Roedd hwn yn bwnc sych ac felly roedd yn bwysig bod y Cyngor yn edrych ar ffyrdd eraill o wella a chryfhau'r gwaith o hwyluso'r broses ymgynghori a'i gwneud yn fwy cynrychioliadol o'r boblogaeth leol yn gyffredinol. Esboniodd y Cadeirydd fod y broses ymgynghori wedi cael ei hymestyn o ddeng niwrnod, wedi bod drwy wahanol gyrff a phwyllgorau ac roedd yn bwysig i Aelodau Etholedig hefyd annog cyfranogiad mewn arolygon o'r fath o fewn eu wardiau. Roedd barn pob un o'r 3,000 o ymatebwyr a ymatebodd i'r arolwg Beth am Siarad yn bwysig i'r Cyngor ac wedi'i hystyried fel rhan o'r gwaith o ddatblygu'r Cynllun. Esboniodd y Rheolwr Gweithredol Strategaeth Gorfforaethol a Mewnwelediad, o ran targedau ac ati, y byddai'r rhain yn cael sylw drwy'r Cynlluniau Gwasanaeth a'r Targedau Perfformiad i gyflawni Cynllun Cyngor Bro Morgannwg, i'w rannu gyda'r Pwyllgor yn y dyfodol agos. Byddai'r sylwadau a godwyd am y broses bresennol hefyd yn cael eu hystyried ar gyfer y Cynllun Corfforaethol newydd. O ran adborth yr ymgynghoriad, ystyriwyd adborth amrywiol yn ogystal â hyn, gan gynnwys yr Arolwg Beth Am Siarad a sesiynau cynllunio gwasanaethau.
- Awgrymodd y Cynghorydd Carroll y dylai'r broses arolygu fod yn syml ac yn hawdd ei defnyddio er mwyn cynyddu lefel y cyfranogiad mewn ymgynghoriadau, gan nodi'r problemau yr oedd ef a sawl etholwr wedi'u hwynebu gyda phroses ymgynghori'r Cynllun Datblygu Lleol newydd. Byddai'r adborth hwn yn cael ei drosglwyddo'n ôl i'r rhwydwaith swyddogion er mwyn mynd i'r afael â phroblemau o'r fath a allai fod yn creu rhwystrau i gyfranogiad y cyhoedd.

Gwnaeth y Pwyllgor Craffu, ar ôl ystyried yr adroddiad a phob mater a phob goblygiad ynddo,

ARGYMHELLWYD – Y dylid nodi'r Cynllun Cyflawni Blynnyddol drafft wedi'i ddiweddarau (Atodiad A), yr adroddiad adborth i'r ymgynghoriad (Atodiad B) a'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (Atodiad C).

Rheswm dros yr argymhelliad

Gyda golwg ar gynnwys yr adroddiad, yn ogystal â'r trafodaethau yn y cyfarfod.